Ordinhad 14
Y Cyngor: Cadw a Defnyddio'r Sêl Gyffredin

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

ORDINHAD 14
Y CYNGOR: CADW A DEFNYDDIO'R SÊL GYFFREDIN

1. Y Clerc i'r Cyngor fydd yn gyfrifol i'r Cyngor am ddiogelu'r Sêl Gyffredin ac am reoli sut y'i defnyddir.

2. Caiff dogfennau eu selio o ganlyniad i:

    1. benderfyniad gan y Cyngor; neu
    2. benderfyniad gan unrhyw unigolyn neu gorff o unigolion sy'n gweithredu ag awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor, naill ai'n gyffredinol neu o ran gweithrediad penodol.

3. Dyma'r geiriad a ddefnyddir ar y dogfennau a selir: "Rhoddir o dan Sêl Gyffredin Prifysgol Aberystwyth, a dilysir gan...."

4. Dilysir gosod y Sêl gan naill ai:

    1. dau aelod o'r Cyngor; neu
    2. un aelod o'r Cyngor a'r Clerc i'r Cyngor.

5. Bydd y Clerc i'r Cyngor yn cynnal y Cofnod Selio gan gofnodi, am bob achlysur pan y'i defnyddiwyd, y dyddiad, manylion y ddogfen a seliwyd, enwau'r trydydd partïon perthnasol, a sut yr awdurdodwyd defnyddio'r Sêl Gyffredin. Bydd y Clerc i'r Cyngor yn sicrhau bod y Cofnod Selio ar gael i aelodau o'r Cyngor i'w harchwilio ar gais.

6. Ar bob achlysur pan selir dogfen, bydd y llofnodwyr a restrir yn 4 uchod yn llofnodi'r Cofnod Selio i gadarnhau dilysrwydd y sêl a'u bod wedi gweld yr awdurdod dros y selio.

7. Bydd y Clerc i'r Cyngor yn rhoi rhestr o'r dogfennau hynny a seliwyd yn unol â'r Ordinhad hon mewn adroddiad i'r Cyngor.